**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD PWYLLGOR DEDDFAU**

# Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Rhif 2) (Cymru) 2000

## Cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn debyg iawn i Orchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 1999 a drafodwyd gan y Pwyllgor ar y 23ain Tachwedd 1999.

Fel rhan o delerau cynllun gwreiddiol yr hawl i brynu tai cyngor a ddechreuwyd gan Ddeddf Tai 1985 ("y Ddeddf"), mae'r trosglwyddiad yn ddarostyngedig i gyfamod sy'n rhwymo'r tenant i dalu'r gostyngiad a dderbyniwyd (o dan y cynllun) yn ôl os oes yna werthiant perthnasol o'r annedd o fewn tair mlynedd.

Mae'r atebolrwydd all godi o dan y cyfamod yn effeithiol fel arwystl cyfreithiol ar yr annedd sydd o dan sylw.

Mae'r arwystl hwn yn cymryd blaenoriaeth yn union ar ôl unrhyw arwystl cyfreithiol sy'n diogelu unrhyw swm a drosglwyddwyd i'r tenant gan "sefydliad benthyca cymeradwy" er mwyn ei alluogi ef neu hi i fanteisio ar yr hawl i brynu.

Mae adran 156 o'r Ddeddf yn nodi mathau o sefydliad fel "sefydliadau benthyca cymeradwy" ond mae hefyd yn darparu ar gyfer pennu cyrff pellach gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi M1 Mortgages Limited, Ocwen 2 Limited, Ocwen 3 Limited, Ocwen 4 Limited, Ocwen M Limited ac Ocwen P Limited fel cyrff o'r fath.

Mae'r sefydliadau a enwir drwy ddefnyddio adran 156 o'r Ddeddf hefyd yn gymwys i adrannau 36 a 171A o'r Ddeddf ac adrannau 12 a 16 o Ddeddf Tai 1996.

## Rheol Sefydlog 11.5

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel rhai a oedd yn ddigon pwysig i gyfiawnhau eu hadrodd yn ffurfiol i'r Cynulliad.

## Sylwadau Cyffredinol

### Nodyn Esboniadol

Mae yna wall teipio yn llinell gyntaf y testun Cymraeg ei iaith lle dylsai "un pennu" ddarllen "yn pennu".

**Teitl**

Mae cromfach ar goll ar ôl "Wales" yn y testun Saesneg ei iaith yn y pennawd cyntaf.

Mae meddalwedd y Cyfrifiadur wedi newid yr "i" dot i "I" fawr yn y pennawd cyntaf a hefyd yn Erthygl 1.

**Erthygl 1**

Mae’r dyddiad dod i rym wedi’i gynnwys yn y pennawd ond nid yn y bylchau yn Erthygl 1.

**Troednodion**

Mae yna gromfach diangen ar ôl "paragraff" yn y testun Cymraeg ei iaith o droednodyn "c". Mae hefyd angen "a" cyn "Datblygu Trefol".


**DYLAN M HUGHES**

Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol

Y Pwyllgor Deddfau


**30ain Mawrth 2000**

Ein cyf: LAD –01-01-101

| | | |
|---|---|---|
| **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU** | | **NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES** |
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |

| | | |
|---|---|---|
| **TAI, CYMRU** | | **HOUSING, WALES** |
| **Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Rhif 2) (Cymru) 2000** | | **The Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (No. 2) (Wales) Order 2000** |
| | | |
| **NODYN ESBONIADOL**<br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br>*(This note does not form part of the Order)* |
| | | |
| Mae'r Gorchymyn hwn un pennu chwe chorff yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156 o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar waredіadau o dan yr hawl i brynu). Pennwyd cyrff eraill drwy orchmynion blaenorol. | | This Order specifies six bodies as approved lending institutions for the purposes of section 156 of the Housing Act 1985 (priority of charges on disposals under the right to buy). Other bodies have been specified by previous orders. |
| Mae'r cyrff hyn hefyn yn dod yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 36 o Ddeddf 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan awdurdodau lleol) ac adran 12 o Ddeddf Tai 1996 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig). | | Such bodies also become approved lending institutions for the purposes of section 36 of the 1985 Act (priority of charges on voluntary disposals by local authorities) and section 12 of the Housing Act 1996 (priority of charges on voluntary disposals by registered social landlords). |

| | | |
|---|---|---|
| Yn ychwanegol, gan fod adran 156 o Ddeddf Tai 1985 yn cael ei chymhwyso gan adran 171A o'r Ddeddf honno at achosion lle diogelir hawl tenant i brynu a chan adran 17 o Ddeddf Tai 1996 at achosion lle mae gan denant hawl i gaffael o dan adran 16 o'r Ddeddf honno, daw'r cyrff a benwyd yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion yr hawliau hynny. | | In addition, as section 156 of the Housing Act 1985 is applied by section 171A of that Act to cases in which a tenant's right to buy is preserved and by section 17 of the Housing Act 1996 to cases in which a tenant has the right to acquire under section 16 of that Act, the specified bodies become approved lending institutions for the purposes of those rights. |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU**<br><br>**STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **TAI, CYMRU** | | **HOUSING, WALES** |
| Gorchymyn Tai (Hawl I Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Rhif 2) (Cymru) 2000 | | **The Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (No. 2) (Wales Order 2000** |
| *Wedi'i wneud 2000*<br><br>*Yn dod i rym 14 Ebrill 2000* | | *Made 2000*<br><br>*Coming into force 14th April 2000* |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 156(4) o Ddeddf Tai 1985**(a)** ac a freiniwyd ynddo bellach graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru:**(b)** | | The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 156(4) of the Housing Act 1985**(a)** which are now vested in it so far as exercisable in Wales**:(b)** |
| **Enwi, cychwyn a chymhwyso** | | **Citation, commencement and application** |

| | | |
|---|---|---|
| **1.**-(1) Enw'r Gorchymym hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl I Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Rhif 2) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 2000. | | **1.**-(1) This Order may be cited as the Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (No. 2) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 2000. |
| (2) Mae'r Gorchymym hwn yn gymwys i Gymru'n unig. | | (2) This Order applies to Wales only. |
| **Cyrff a bennir** | | **Specified bodies** |
| **2.** Pennir y cyrff canlynol yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156 **(c)** o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon) - | | **2.** The following bodies are specified as approved lending institutions for the purposes of section 156**(c)** of the Housing Act 1985 (priority of charges) – |
| (a) M1 Mortgages Limited – Rhif y Cwmni 3749420 | | (a) M1 Mortgages Limited – Company No 3749420 |
| (b) Ocwen 2 Limited – Rhif y Cwmni 3610605 | | (b) Ocwen 2 Limited – Company No 3610605 |
| (c) Ocwen 3 Limited – Rhif y Cwmni 3730890 | | (c) Ocwen 3 Limited – Company No 3730890 |
| (ch) Ocwen 4 Limited – Rhif y Cwmni 3797432 | | (d) Ocwen 4 Limited – Company No 3797432 |
| (d) Ocwen M Limited – Rhif y Cwmni 3770776 | | (e) Ocwen M Limited – Company No 3770776 |
| (e) Ocwen P Limited – Rhif y Cwmni 3770763 | | (f) Ocwen P Limited – Company No 3770763 |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 **(ch).** | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(d)**. |
| | | |
| [ ] 2000 | | [ ] 2000 |
| Llywydd Y Cynulliad<br><br>Cenedlaethol | | The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |

**[ENDNOTES – WILL APPEAR IN PRINTED VERSION AS FOOTNOTES]**

(a) 1985 p.68; diwygiwyd adran 156(4) gan Ddeddf Tai 1988 (p.50), Atodlen 17, paragraff 106 a chan Ran XIII o Atodlen 19 i Ddeddf Tai 1996 (p.52).

(a) 1985 c.68; section 156(4) was amended by the Housing Act 1988 (c.50), Schedule 17, paragraph 106 and by Part XIII of Schedule 19 to the Housing Act 1996 (c.52).

(b) Gweler Gorchymyn Cynylliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) Diwygiwyd adran 156 hefyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 (p.63), Atodlen 5, paragraff (1(2) a (5) a chan adran 120(3) a (4) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Prydlesi, Tai, Datblygu Trefol 1993 (p.28).

(c) Section 156 was also amended by the Housing and Planning Act 1986 (c.63), Schedule 5, paragraph 1(2) and (5) and by section 120(3) and (4) of the Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c.28).

(ch) 1998 p.38.

(d) 1998 c.38.